Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
University Health Board

Gwybodaeth i Gleifion

# THERAPI CHWISTRELLU

Cyfarwyddiaeth Therapïau

## Cyflwyniad

Mae eich ffisiotherapydd yn credu y gallai pigiad eich helpu. Maent wedi eich cyfeirio at ffisiotherapydd arbenigol i gael eu barn. Mae'r daflen hon yn rhoi gwybodaeth i chi am y driniaeth i'ch helpu i benderfynu. Os oes gennych gwestiynau, gofynnwch i'ch ffisiotherapydd yn eich ymweliad nesaf. Efallai y bydd y ffisiotherapydd yn siarad am ddefnyddio corticosteroidau, anesthetig lleol, neu'r ddau. Mae'r daflen hon yn ychwanegu at y cyngor a gewch gan eich ffisiotherapydd.

## Beth yw Corticosteroidau?

Mae pigiadau steroid yn trin problemau cymalau a meinweoedd meddal. Mae corticosteroidau yn gyffuriau gwrthlidiol cryf. Maent yn helpu i leihau llid a phoen. Gall hyn eich helpu i ddechrau adsefydlu yn gynt, bod angen llai o driniaethau arnoch, a dychwelyd i weithgareddau arferol yn gyflymach.

## Beth yw Anesthetig Lleol?

Mae anesthetig lleol yn feddyginiaeth sy'n fferru rhan o’r corff am gyfnod byr. Gellir ei gymysgu â chorticosteroidau neu ei ddefnyddio ar ei ben ei hun i helpu i wneud diagnosis o gyflyrau.

## Faint o bigiadau a fydd eu hangen arnaf?

Mae’n dibynnu ar eich cyflwr a sut y byddwch yn ymateb. Bydd eich ffisiotherapydd yn eich cynghori.

## Beth ddylwn i ei wneud ar ôl y pigiad?

Gadewch i'r rhan o’r corff sydd wedi cael y pigiad orffwys am 1-2 ddiwrnod. Gallwch ei symud ond peidiwch â'i gor-ddefnyddio. Ceisiwch osgoi tasgau a achosodd boen yn y gorffennol. Mae hyn yn helpu'r cyffur i weithio ac yn atal anaf. Gall gor-ddefnyddio'r cymal wneud y pigiad yn llai effeithiol.

## Beth os wyf yn Ddiabetig?

Bydd eich ffisiotherapydd yn gwirio eich HbA1c. Os yw'n uwch na 69 mmol/mol, ni allwch gael y pigiad o fewn yr adran ffisiotherapi. Gall eich lefelau siwgr yn y gwaed

newid am gyfnod byr ar ôl y pigiad. Gofynnwch i'ch nyrs ddiabetig neu eich Meddyg Teulu os oes angen help arnoch i reoli hyn.

**Beth os wyf yn cymryd meddyginiaeth teneuo’r gwaed?**

Dywedwch wrth eich ffisiotherapydd pa feddyginiaeth teneuo’r gwaed yr ydych yn eu cymryd. Efallai y bydd angen rhoi'r gorau i rai cyn y pigiad. Bydd eich ffisiotherapydd yn rhoi cyngor penodol i chi.

**Beth os wyf yn sâl ar ddiwrnod y pigiad a gynlluniwyd?**

Os byddwch yn teimlo'n sâl neu'n cymryd gwrthfiotigau, aildrefnwch yr apwyntiad. Cysylltwch â ni i ganslo os oes angen.

**Beth os wyf wedi cael unrhyw bigiadau eraill?**

Os cawsoch frechlyn Covid/ffliw yn ystod y pythefnos diwethaf, aildrefnwch yr apwyntiad.

**A oes unrhyw sgil effeithiau o'r driniaeth hon?**

Mae'r risg o gymhlethdodau o ganlyniad i bigiad steroid yn isel. Mae cymhlethdodau difrifol yn anghyffredin iawn. Bydd eich ffisiotherapydd yn rhoi mwy o gyngor i chi cyn y pigiad. Weithiau gall y canlynol ddigwydd.

**Poen yn gwaethygu**

Weithiau bydd poen yn y cymalau yn gwaethygu yn ystod y 24-48 awr gyntaf ar ôl pigiad. Fel arfer, mae'n diflannu ar ei ben ei hun o fewn ychydig ddyddiau.

**Haint**

Rydym yn defnyddio technegau aseptig, ond yn anaml iawn y gall haint ddigwydd. Os byddwch yn profi gwres, chwydd, neu os bydd eich symptomau'n gwaethygu yn y man lle cawsoch eich pigiad, yn enwedig os oes gennych dwymyn, ewch i weld eich meddyg neu ewch i'r Adran Achosion Brys.

**Adwaith Alergaidd**

Mae adweithiau alergaidd i'r pigiad yn anghyffredin iawn. Os bydd yn digwydd, fel arfer mae'n digwydd yn yr 20 munud cyntaf. Gofynnwn i chi aros yn yr adran ffisiotherapi am yr amser hwn. Os ydych yn profi adwaith annisgwyl, ceisiwch gyngor meddygol.

**Afliwiad y Croen**

Gall y croen newid lliw ychydig o amgylch man y pigiad, sy'n fwy cyffredin mewn croen tywyllach.

## Atroffi Braster

Mae hyn yn edrych fel twll yn y croen a dylai ddiflannu ar ei ben ei hun ymhen 1-2 flynedd.

## Effaith ar y cymalau

Dangoswyd bod pigiadau steroid mewngymalol dro ar ôl tro yn cyfrannu at gyflymu newid dirywiol i'r cartilag mewn cymalau.

## Mae sgil effeithiau dros dro eraill a allai ddigwydd yn cynnwys:

Gall sgil effeithiau dros dro eraill gynnwys effaith ar y mislif, cochni wyneb, ac acne yn y rhai sy'n dueddol o’i gael.

Os oes gennych unrhyw bryderon, trafodwch nhw gyda'ch ffisiotherapydd.

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/
This document is available in English**